CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 7fed o Orffennaf 2015 yn Yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol
Cadeirydd: Lon Davies
Cynghorwyr: Ieuan Davies, Llinos Davies, Enid Cole, Ceirwyn John,
Cynghorydd Sir: Cyng. Keith Lewis
Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Alwyn Evans, Julie Charlton

Cofnodion 02.06.2015
Cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Llinos Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion
20. Llwybr Troed A487 – Fe ddatgelodd y Cyng Keith Lewis ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda asiantaeth y prifffordd ac hefyd mae Paul Davies AM mewn cysylltiad gyda Edwina Hart ynglyn ar mater.

Gohebiaeth
21. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Pantyrodyn Eglwyswrw – Cyn trafod gwnaeth Ceirwyn John ddatgan eu diddordeb yn y mater. Cais ar gyfer adeilad amaethyddol. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais yma.
22. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Gelli Pontyglasier. Cais ar gyfer estyniad ir Tŷ gyda ffenestri newydd a chyntedd newydd.
23. Gwyl Fwyd Crymych – Llythyr yn gofyn am gymorth ariannol. Cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Ieuan Davies I peidio cyfrannu eleni.
24. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio The Barn Penfeidr Brynberian - cais adolygol ar gyfer gweithdy gardd. Fe dangosodd Llinos Davies ei phryder yn y mater yma gan fod llawer o adeiladu yn mynd ymlaen ar y safle yma. Helen I gysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol
25. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Delfan Ffynnongroes. Cyn trafod gwnaeth Lon Davies ddatgan eu diddordeb yn y mater. Llythyr I cadarnhau bod y cais wedi ei dderbyn.
26. Adroddiad Blynyddol Ombwdsman 2014/15 – Dosbarthwyd hwn I'r Cynghorwyr
27. Cyngor am Bobeth –Pension Wise. Fe fydd y wybodaeth yma yn yr hysbysfwrdd.
28. Cyfanswm yn y banc 25.6.15 £2,081.58

Unrhyw Fater arall
29. Dwr ar y ffordd yn Temple Gate – Helen wedi cysylltu gyda'r bwrdd dwr unwaith eto ac maent wedi cadarnhau mae dim Dwr Cymru sydd yn gyfrifol am hwn. Cyng Keith Lewis I ail edrych ar y sefyllfa. Helen hefyd wedi cysulltu gyda Dwr Cymru ynglyn a Manhole ar y A487 yn isel. Bwrdd Dwr Cymru I atgyweirio.
30. LLythyr wrth Ken a Rosleen Rees – Llythyr I ddiolch am y gwahoddiad i'r Cinio Blynyddol.

31. Fe ddangosodd Ieuan Davies ei pryder am yr holl fwd ac yn y blaen sydd ar y ffordd heibio Nantyrhelygen Fawr tua Pont ddol Haearn. Fe fydd y Cyng Keith Lewis yn edrych ar y sefyllfa

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 1af o Fedi am 8.00y.h.
Terfynwyd y cyfarfod am 8.35 y.h.